**PROTOCOL RHWNG**
**CYNGOR CENEDLAETHOL PRIF SWYDDOGION YR HEDDLU,**
**GWASANAETH ERLYN Y GORON A**
**GWASANAETH LLYSOEDD A THRIBIWNLYSOEDD EI MAWRHYDI**
**I BRYSURO ACHOSION**
**SY'N CYNNWYS**
**TYSTION DAN 10 MLWYDD OED**

Fersiwn 2 11072018

## Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | 3 |
| 2 | Pwrpas | 3 |
| 3 | Hyd a Lled | 3 |
| 4 | Yr Ymchwiliad | 4 |
| 5 | Ymgynghori'n gynnar | 4 |
| 6 | Cyhuddo | 4 |
| 7 | Deunyddiau Trydydd Partïon | 5 |
| 8 | Paratoi'r Achos a'i Adolygu | 6 |
| 9 | Llys Ynadon a Llys Ieuenctid | 7 |
| 10 | Llys y Goron | 8 |

## 1. ADRAN 1 - Rhagarweiniad

1.1. I blant, mae rhoi tystiolaeth yn gallu bod yn brofiad hynod anodd sy'n codi ofn. Hefyd, mae'n bosibl i blant ifanc iawn anghofio manylion eu tystiolaeth dros gyfnod cymharol fyr.

1.2. Mae Adran 16 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn cydnabod bod plant yn fregus, ac fel mater o drefn mae'n categoreiddio tystion sy'n blant fel rhai sy'n gymwys am Fesurau Arbennig. Ond er bod y mesurau hyn yn cael eu defnyddio, gall y broses farnwrol fod yn rhy araf i roi cyfle i dystion ifanc iawn roi eu tystiolaeth orau.

## 2. ADRAN 2 - Pwrpas

2.1. Mae asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol wedi ymrwymo i gefnogi tystion drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig pan fyddan nhw'n mynd i'r llys ac yn rhoi tystiolaeth. Mae'r protocol hwn yn nodi'r trefniadau gwaith sy'n bodoli rhwng yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i brysuro achosion sy'n cynnwys tystion ifanc iawn er mwyn:

a) manteisio i'r eithaf ar y cyfle iddynt roi eu tystiolaeth orau;
b) lleihau'r straen a'r effaith emosiynol oherwydd y broses Cyfiawnder Troseddol.

2.2. Mae'r partïon yn cydnabod y gallai fod angen llawer o amser mewn rhai achosion i feithrin yr ymddiriedaeth a'r cysylltiad angenrheidiol â thystion ifanc iawn i roi hyder iddynt gymryd rhan yn y broses Cyfiawnder Troseddol. Ymhob achos, dylai buddiannau'r plentyn fod yn hollbwysig ac ni ddylai'r trefniadau a amlinellir yn y protocol hwn fod yn bwysicach na rhoi'r gofal cywir a phriodol i'r dioddefwyr a'r tystion; gan gynnwys rheoli, pan fo'n briodol, i atal yr angen i'r plentyn roi tystiolaeth o gwbl.

2.3. Wrth ddilyn y trefniadau a amlinellir yn y protocol hwn, nid oes disgwyl i asiantaethau fynd i gostau ychwanegol i brysuro achosion, er enghraifft drwy gyflymu cyflwyniadau fforensig oni bai fod amgylchiadau'r ymchwiliad yn golygu bod hynny'n briodol.

## 3. ADRAN 3 - Hyd a Lled

3.1. Dim ond i achosion lle cafodd rhywun ei gyhuddo o gyflawni'r trosedd ar 1 Ebrill 2015 neu ar ôl hynny y mae'r protocol hwn yn berthnasol, pryd:

a) mae'r tyst o dan 10 oed ar yr adeg pryd mae'r heddlu'n cael gwybod am y digwyddiad; a
b) mae'r tyst sydd o dan 10 oed wedi rhoi datganiad tystiolaethol neu gyfweliad i 'sicrhau'r dystiolaeth orau' mewn perthynas â'r digwyddiad, i gefnogi naill ai'r erlyniad neu'r amddiffyniad.

3.2. Nid ar gyfer troseddau sy'n dod o dan y Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau yn unig y mae'r protocol hwn. Gall fod yn gymwys i achosion troseddol eraill lle mae tyst dan 10 mlwydd oed, er enghraifft rhai troseddau gyrru.

3.3. Mae Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (Adran 28), sy'n darparu ar gyfer croesholi tystion cyn treialon, ar gael mewn tri Llys y Goron a bydd yn cael ei gyflwyno drwy'r wlad. Disgwylir y bydd achosion sy'n gymwys i ddefnyddio Adran 28 yn dilyn gweithdrefnau Adran 28, a hynny yn ddibynnol ar yr asesiad arferol o anghenion tystion a chymeradwyaeth y Llys. Mae'r amserlenni sydd yn y protocol hwn cyn y gwrandawiad cyntaf yr un fath â'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Adran 28.

**4. ADRAN 4 - Yr Ymchwiliad**

4.1. Bydd yr heddlu'n ystyried ar gychwyn yr ymchwiliad a yw'r achos yn dod o dan y protocol hwn. Bydd yr heddlu'n adolygu'r sefyllfa hon wrth i'r ymchwiliad fynd ei flaen ac wrth i ragor o dystion gael eu canfod.

4.2. Pan roddir gwybod i'r heddlu am drosedd, bydd goruchwyliwr yr heddlu yn ystyried a yw'r achos yn dod o dan y protocol hwn a bydd yn cefnogi papurau'r achos os yw'r drosedd yn dod o dan y protocol hwn, neu os yw'n debygol o ddod o dan y protocol hwn.

4.3. Ymhob achos sy'n dod o dan y protocol hwn, bydd goruchwyliwr yr heddlu, sy'n goruchwylio'r ymchwiliad, yn sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei baratoi i nodi'r camau sydd eu hangen i brysuro'r ymchwiliad at benderfyniad ynghylch cyhuddo.

4.4. Bydd yr heddlu'n canfod unrhyw angen posibl am gyfryngwr i gynorthwyo i gyfathrebu â'r tyst, ac os oes angen o'r fath wedi'i ganfod, i sicrhau bod cyfryngwr cofrestredig yn cael ei hurio cyn gynted ag y bo modd yn yr ymchwiliad a chyn cyfweld â'r tyst.

4.5. Mewn achos lle bu oedi nad oedd modd ei osgoi yn yr ymchwiliad, er enghraifft pryd na ellid dod o hyd i'r person dan amheuaeth, dylai'r achos barhau o hyd i gael ei ystyried yn un sy'n dod o dan y protocol hwn, oni bai fod yr oedi mor fawr fel y byddai ei brysuro yn rhywbeth amherthnasol, er enghraifft os yw'r oedi am fwy na 18 mis.

4.6. Mewn rhai achosion, nid yw'n amlwg i ddechrau fod tyst o dan 10 oed yn gysylltiedig â'r achos. Dylid rheoli achosion o'r fath o dan ddarpariaethau'r protocol hwn oddi ar yr adeg pryd maent yn dod o fewn yr hyn a amlinellir ym mharagraff 3.1.

**5. ADRAN 5 - Ymgynghori'n gynnar**

5.1. Dylai ymchwilwyr ystyried yr angen i ymgynghori'n gynnar â Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn achosion lle mae tyst dan 10 oed. Dan Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo mae ymgynghori'n gynnar yn un o'r gofynion mewn achosion o drais rhywiol. Dylai Erlynydd yr Ardal wneud nodyn o unrhyw gyngor a roddir yn y cam hwn.

**6. ADRAN 6 - Cyhuddo**

6.1. Wrth gyflwyno achos ar gyfer penderfyniad ynghylch cyhuddo, bydd yr heddlu'n sicrhau bod goruchwyliwr wedi cadarnhau bod y ffeil yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Dylai'r ffeil gydymffurfio â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo.

6.2. Bydd yr heddlu'n nodi'n glir ar yr MG3 (Adroddiad i Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfyniad ynghylch cyhuddo) ac MG6 (Tystiolaeth a Gwybodaeth ar gyfer Ffeil Achos) fod yr achos yn un sy'n dod o dan y protocol hwn.

6.3. Bydd y swyddog ymchwilio yn cynnal cyfweliad fideo, a bydd crynodeb ysgrifenedig ar gael i'r erlynydd ar gyfer y penderfyniad ynghylch cyhuddo. Bydd yr erlynydd yn gwylio'r cyfweliad fideo cyn defnyddio'r Prawf Cod Llawn neu ystyried y crynodeb wrth ddefnyddio'r Prawf Trothwy. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadw'r cyfrifoldeb dros gynhyrchu'r recordiad fideo ar ôl cyhuddo, yn unol â'r gweithdrefnau cyfredol.

6.4. Bydd y swyddog ymchwilio yn paratoi MG2 llawn a manwl (Asesiad Mesurau Arbennig) ymhob achos, a hynny er mwyn sicrhau bod unrhyw ofyniad am Fesurau Arbennig yn cael ei ystyried yn gynnar, gyda gwybodaeth. Dylai'r MG2 gynnwys dweud a yw'r tyst yn debygol o elwa ar ddefnyddio Adran 28 lle bo ar gael.

6.5. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron sicrhau bod pob MG3 (cyngor ynghylch cyhuddo) sy'n cael ei ddarparu gan erlynydd, yn unol â'r protocol hwn, yn cael ei ddarparu cyn pen 7 diwrnod ar ôl derbyn y ffeil a'i fod yn cynnwys Cynllun Gweithredu oni bai nad oes angen unrhyw waith ychwanegol neu waith sy'n weddill gan yr heddlu. Er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithlon, bydd y dyddiadau gweithredu yn cael eu cytuno rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu, a byddan nhw'n cael eu cofnodi ar y Cynllun Gweithredu. Dylai pob Cynllun Gweithredu gynnwys ystyriaeth dros gael unrhyw ddeunydd sydd ei angen i gefnogi cais am Fesurau Arbennig.

6.6. Unwaith y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cael ymateb i'w Cynllun Gweithredu gan yr heddlu, dylen nhw ddarparu unrhyw gyngor/camau gweithredu dilynol cyn pen 7 niwrnod ar ôl iddynt ddod i law.

6.7. Dylai'r erlynydd gofnodi ar yr MG3 a oes bwriad i wneud cais am ddefnyddio Adran 28 lle bo ar gael.

6.8. Dylai'r erlynydd ystyried a yw'r achos yn un lle dylid rhoi hysbysiad dan Adran 51C o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i'r achos gael ei gymryd a'i symud ymlaen yn ddi-oed yn Llys y Goron.[1]

6.9. Pan fo Prawf Cod Llawn yn cael ei ddefnyddio, dylai'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron geisio sicrhau nad yw'r cyfnod rhwng y gŵyn gyntaf a'r cyhuddiad yn fwy nag wyth wythnos (neu bedair wythnos os defnyddir y Prawf Trothwy). Mae'n cydnabod bod natur a chymhlethdod llawer o ymchwiliadau, er enghraifft rhai sy'n cynnwys dadansoddi llawer ar y cyfryngau electronig neu ddatgeliadau i drydydd partïon, yn annhebygol o gael eu datrys o fewn yr amserlenni hyn. Rhaid i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud pob ymdrech o hyd i sicrhau bod yr amser ar gyfer ymchwiliadau o'r fath cyn lleied â phosibl.

## 7. ADRAN 7 - Deunyddiau Trydydd Partïon

[1] Mae Adran 51C(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn datgan y caiff y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus roi rhybudd dan yr adran hon am drosedd sy'n dod o dan is-adran (3) (sy'n cynnwys pob ymosodiad, neu fygythiad o ymosodiad, troseddau rhywiol, troseddau llathruddo a throseddau cipio plentyn) pryd bydd plentyn dan 17 oed yn cael ei alw fel tyst ac 'er mwyn osgoi unrhyw ddrwg i les y plentyn, dylai Llys y Goron gymryd yr achos a mynd ymlaen â'r achos yn ddi-oed.'

7.1. Dylai'r heddlu, sef yr ymchwilydd a'r swyddog datgelu, fod yn rhagweithiol wrth ganfod a cheisio mynediad at ddeunyddiau trydydd partïon perthnasol. Bydd yr heddlu'n ceisio cael mynediad at ddeunydd trydydd partïon cyn y penderfyniad i gyhuddo, lle bynnag y bo modd, a chan fod angen cael cydsyniad rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, gofynnir am y cydsyniad mewn modd sensitif, gan ystyried natur y deunydd dan sylw. Ar 5 Mehefin 2018, daeth protocol diwygiedig ar drin deunydd trydydd parti mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol i rym. Rhaid i'r ymchwilydd, y swyddog datgelu a'r erlynydd droi at y Protocol Trydydd Partïon. Mae hwnnw'n nodi'r cytundeb fod yr heddlu'n defnyddio'r ohebiaeth a'r ffurflenni safonol ymhob achos, a hynny ar lefel genedlaethol, sef:

i. Y llythyr i'w anfon at y trydydd partïon yn gofyn iddynt nodi'r deunydd sydd ganddynt;
ii. Yr ateb pro-fforma i'r trydydd partïon ei ddefnyddio i ymateb;
iii. Mynegai o'r deunydd y gofynnir amdano;
iv. Cofnod o'r adegau pryd mae'r deunydd yn cael ei weld.

## 8. ADRAN 8 - Paratoi'r Achos a'i Adolygu

8.1. Pan fydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo, bydd y swyddog yn yr achos, oni bai y ceisir remandio yn y ddalfa, yn gofyn i swyddog y ddalfa roi'r diffynnydd ar fechnïaeth i ymddangos yn y Llys Ynadon ar ddyddiad cyn pen 7 niwrnod ar ôl dyddiad y cyhuddiad. Os yw'r achos yn un sydd angen ei glywed gan Farnwr Rhanbarth yn y gwrandawiad cyntaf, dylid gwrando'r achos ar ddyddiad sydd mor agos â phosibl i'r cyfnod o 7 niwrnod.

8.2. Pan fo amddiffynnydd yn cael ei alw neu ei orchymyn i ddod i'r llys, bydd dyddiad y gwrandawiad yn cael ei ddewis i sicrhau'r oedi lleiaf posibl yn yr achos, gan gofio bod angen caniatáu 14 diwrnod o leiaf i hysbysu drwy'r post ynghylch dyddiad y gwrandawiad.

8.3. Yna, bydd y swyddog yn yr achos yn sicrhau bod ffeil sy'n cyd-fynd â Safon Genedlaethol Ffeiliau yn cael ei darparu i Wasanaeth Erlyn y Goron cyn gynted ag y bo modd, a bob amser 48 awr fan bellaf cyn y gwrandawiad cyntaf yn y Llys Ynadon mewn achosion o fechnïaeth. Rhaid i'r ffeil gynnwys pedwar copi o bob cyfweliad fideo â dioddefwr neu dyst; bydd un ohonynt yn cael ei ddarparu i'r Amddiffyniad gyda Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad a bydd y llall yn cael ei ddarparu i Lys y Goron cyn y gwrandawiad rhagarweiniol.[2]

8.4. Pan fydd cyfryngwr cofrestredig yn gysylltiedig â'r cyfnod ymchwilio yn yr achos, bydd yr heddlu yn dweud wrth y cyfryngwr erbyn pryd y bydd angen ei adroddiad llys, gan dalu sylw i'r amserlenni sydd yn y protocol hwn. Bydd yr hysbysiad hwnnw, ac unrhyw ymateb gan y cyfryngwr, yn cael ei atodi i'r MG2.

8.5. Cyn pen 3 wythnos ar ôl y gwrandawiad cychwynnol yn y Llys Ynadon, bydd yr heddlu'n darparu Ffeil Uwchraddio i Wasanaeth Erlyn y Goron, ni waeth a yw'r diffynnydd ar fechnïaeth neu yn y ddalfa. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno ei achos cyn pen 35 diwrnod ar ôl y gwrandawiad cychwynnol.

[2] Ni ddylai diffynyddion sydd heb gynrychiolaeth gael copi o unrhyw gyfweliad i sicrhau'r dystiolaeth orau. Mae hyn yn dilyn y Canllawiau ar Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol 2001; t223 sy'n datgan 'Ni all unrhyw bersonau sydd wedi'u cyhuddo neu sydd â chysylltiad â'r troseddau honedig gadw unrhyw recordiad a wnaed mewn cysylltiad â'r ymchwiliad, na chael mynediad heb oruchwyliaeth at unrhyw recordiad o'r fath'.

8.6. Os gwneir cais i ddefnyddio Adran 28, a bod y llys yn cytuno i hynny, bydd yr achos yn cael ei reoli dan drefniadau gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer y broses honno a bydd yn peidio â dod o dan y trefniadau sydd yn y protocol hwn.

## 9. ADRAN 9 - LLYS YNADON A LLYS IEUENCTID

### Y Gwrandawiad Cyntaf

9.1. Pan fo modd, dylid nodi cofnod/ffeil yr achos er mwyn tynnu sylw'r llys at y ffaith fod y protocol hwn yn berthnasol iddo, ac ymhob achos, dylai'r erlynydd gadarnhau bod y llys yn ymwybodol o'r ffaith fod y mater yn achos protocol.

9.2. Disgwylir gwneud cynnydd yn y gwrandawiad cyntaf. Dylai ceisiadau i ohirio cyn y ple/anfon fod yn eithriad, ac ni ddylid caniatáu hynny ond pan fydd hynny er budd cyfiawnder.

9.3. Dylai pob treial ar gyfer achosion protocol gael statws categori "Uchel" i sicrhau bod y treial yn cael blaenoriaeth ar y diwrnod.

9.4. Os yw'r achos yn cael ei anfon i Lys y Goron ar gyfer treial (er enghraifft, os yw'n cael ei anfon dan adran 51, adran 51A, adran 51C o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998) rhaid i'r Llys Ynadon roi gwybod i Lys y Goron fod yr achos yn un y mae'r protocol yn berthnasol iddo. Hefyd, dylai'r Llys Ynadon osod dyddiad ar gyfer y gwrandawiad rhagarweiniol.

9.5. Pan fo cyfryngwr cofrestredig yn gysylltiedig â'r achos a bod y llys yn cyfarwyddo fod rhaid i'r cyfryngwr ddod i'r treial, byddai'n well i dreialon o'r fath gael eu pennu yn hytrach na chael eu gosod ar restrau wrth gefn.[3]

### Achosion sy'n mynd ymlaen yn y Llys Ynadon

9.6. Pan gyflwynir ple dieuog, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol oni bai fod amgylchiadau eithriadol:

- Dylid cyflwyno ple ar adeg yr ymddangosiad cyntaf (neu yn y gwrandawiad cyntaf a fydd ar gael yn dilyn unrhyw ohiriad);
- Dylid pennu dyddiad dros dro ar gyfer y treial 8 wythnos fan bellaf ar ôl dyddiad y ple;
- Dylai'r Llys ystyried a oes angen rhestru gwrandawiad rheoli achos a/neu wrandawiad i sefydlu'r rheolau sylfaenol. Os oes angen gwrandawiad o'r fath, dylid rhestru hyn ar ddyddiad sy'n briodol ym marn y llys ond 14 diwrnod fan bellaf cyn dyddiad y treial;
- Dylai'r Llys, ynghyd â'r partïon, reoli'r achos cymaint ag y bo modd er mwyn sicrhau bod y ffurflen rheoli achos yn cael ei llenwi a bod cytundeb ar yr amserlenni;
- Dylai terfynau amser safonol ar gyfer materion fel tystiolaeth achlust, tystiolaeth arbenigol a datganiadau'r amddiffyniad fod yn gymwys oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo fel arall;
- Dylai'r Llys ymdrin ag unrhyw geisiadau, e.e. Mesurau Arbennig neu gymeriad drwg, ar adeg yr ymddangosiad cyntaf pryd bynnag y bo modd. Os nad oes modd, bydd y terfynau

[3] CrimPD 3F.28.

amser safonol ar gyfer ceisiadau dan y Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn gymwys oni bai fod y Llys yn amrywio'r terfynau amser hynny.

**10. ADRAN 10 - LLYS Y GORON**

10.1. Ar ôl derbyn achos sy'n dod o dan y protocol hwn, rhaid cyfeirio'r ffeil at y Swyddog Rhestr a/neu'r Barnwr.

10.2. Dylid cynnal y Gwrandawiad Paratoi Ple a Threial cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei anfon, ac os yw'n mynd ymlaen i dreial, dylid cymryd ple (areinio'r diffynnydd) lle bynnag y bo modd. Dylai'r Llys a'r partïon dalu sylw i'r terfynau amser a nodir yn rheol 3.24(5) o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

10.3. Os bydd y mater yn mynd ymlaen i dreial, oni bai fod amgylchiadau eithriadol, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol:

- Ni ddylai dyddiad dros dro y treial gael ei osod fwy nag 8 wythnos ar ôl dyddiad y ple;
- Rhaid i'r Llys, ynghyd â'r partïon, reoli'r achos cymaint ag y bo modd er mwyn sicrhau bod y ffurflen rheoli achos yn cael ei llenwi a bod cytundeb ar yr amserlenni;
- Dylai terfynau amser safonol ar gyfer materion fel tystiolaeth achlust, tystiolaeth arbenigol a datganiadau'r amddiffyniad fod yn gymwys oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo fel arall;
- Dylai'r Llys ystyried a oes angen gwrandawiad i sefydlu'r rheolau sylfaenol. Os oes angen gwrandawiad o'r fath, dylai'r weithdrefn sydd yng Nghyfarwyddiadau Arferion Troseddol fod yn berthnasol. [4]

[4] CrimPD 3E.

Llofnod: Dyddiad: 11/07/2018

Printiwch eich enw: Emma Barnett, Prif Gwnstabl Cynorthwyol,
Arweinydd Plismona Cenedlaethol ar gyfer Dioddefwyr a Thystion

Ar gyfer ac ar ran
**Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu**

Llofnod: Dyddiad: 11/07/2018

Printiwch eich enw: Alison Saunders, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Ar gyfer ac ar ran
**Gwasanaeth Erlyn y Goron**

Llofnod: Dyddiad: 11/07/2018

Printiwch eich enw: Sarah Rose

Ar ran ac yn enw
**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi**